Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Dysgu yn yr awyr agored: arfarnu dysgu yn yr awyr agored i blant o dan bump oed yn y Cyfnod Sylfaen

Medi 2011

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd · Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith · Cyrraedd y Nod · The Corporate Standard · Health at Work

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Crynodeb** **1**

**Prif ganfyddiadau** **2**

**Argymhellion** **4**

**Cyd-destun** **5**

Diben yr adroddiad 5
Cefndir 5

**1 Gwerth dysgu yn yr awyr agored** **6**

Pa mor dda y mae dysgu yn yr awyr agored yn cefnogi ymgysylltiad, mwynhad a chyflawniad plant? 6
Pa mor dda y mae dysgu yn yr awyr agored yn cefnogi grwpiau penodol o blant? 7

**2 Cyflwyno dysgu o ansawdd da yn yr awyr agored** **8**

Pa mor dda yw'r profiadau dysgu yn yr awyr agored? 8
Pa mor effeithiol yw hyfforddiant a datblygiad ymarferwyr wrth wneud y mwyaf o'r awyr agored? 9

**3 Rhan rhieni mewn dysgu yn yr awyr agored** **11**

Pa mor dda y mae ysgolion a lleoliadau yn ennyn diddordeb rhieni wrth i'w plant ddysgu yn yr awyr agored? 11

**4 Asesu ac arfarnu dysgu yn yr awyr agored** **12**

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth**
**Atodiad 2: Astudiaethau achos arfer dda**

**Geirfa/cyfeiriadau**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Crynodeb

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwysigrwydd mawr ar gael plant i ddefnyddio'r awyr agored i arbrofi, archwilio a mentro. Mae llawer o ysgolion wedi rhoi llawer o arian, amser ac egni i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i fodloni'r dyheadau hyn.

Nid yw'r garfan gyntaf o blant wedi cwblhau'r Cyfnod Sylfaen eto. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o ddata ar gael ar hyn o bryd y gellid ei ddefnyddio i fesur manteision y Cyfnod Sylfaen. Mae'r diffyg data hefyd yn ei gwneud yn anodd cymharu darparwyr. Bydd y data hwn ar gael o haf 2012.

Mewn dwy o bob tair sesiwn a arsylwyd fel rhan o'r arolwg, roedd profiadau dysgu yn yr awyr agored yn dda neu'n well. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored wedi bod yn fwy llwyddiannus mewn ysgolion na mewn lleoliadau nas cynhelir.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn gwneud defnydd digonol o leiaf o'r awyr agored ac, ar y cyfan, mae hyn o fudd i ddysgu'r plant. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mwynhad, lles, ymddygiad, gwybodaeth y plant a'u dealltwriaeth o'r byd, a'u datblygiad corfforol, yn gwella o ganlyniad i ddefnyddio'r awyr agored. Fodd bynnag, ni chaiff yr awyr agored ei ddefnyddio digon i ddatblygu darllen ac ysgrifennu, iaith Gymraeg, a dawn greadigol y plant, neu'u gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae athrawon yn tueddu i asesu dysgu'r plant yn llai aml ac nid cystal â dysgu dan do. Nid ydynt yn olrhain y cynnydd a wna'r plant wrth ddatblygu eu medrau yn yr awyr agored yn ddigon da. Gan fod plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored, mae hyn yn golygu y gallai cerrig milltir pwysig yn eu datblygiad gael eu colli.

Nid yw uwch arweinwyr a rheolwyr wedi cael digon o hyfforddiant ar y Cyfnod Sylfaen bob amser i nodi arfer dda, herio arfer sy'n llai effeithiol, neu wneud penderfyniadau cost effeithiol ar wella darpariaeth a chyfleusterau awyr agored.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn gwneud defnydd digonol o leiaf o'r awyr agored i wella ac atgyfnerthu dysgu'r plant. Mae ymarferwyr (athrawon a staff cymorth) mewn ysgolion yn fwy hyderus yn cynllunio ar gyfer dysgu yn yr awyr agored nag ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, lle nad oes digon o le tu allan yn aml.

2 Mae gweledigaeth arweinwyr a'u hymrwymiad i wneud y defnydd gorau o ddysgu yn yr awyr agored yn ffactorau allweddol wrth oresgyn rhwystrau fel cael lle cyfyng neu safle sy'n anodd ei addasu.

3 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae plant yn elwa ar dreulio amser yn yr awyr agored. Maent yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad a mwynhad ac mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd a'u datblygiad corfforol yn gwella. Mae mwyafrif o ymarferwyr hefyd yn dweud bod ymddygiad, ffitrwydd corfforol a stamina plant yn gwella.

4 Nid oes data meintiol i ddangos p'un a yw grwpiau penodol o blant yn elwa mwy nag eraill ar ddefnyddio'r awyr agored. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ymarferwyr yn dweud mai bechgyn sy'n elwa fwyaf, gan fod yr awyr agored yn ddull mwy bywiog o ddysgu y mae llawer o fechgyn yn ei fwynhau. Mae rhai ymarferwyr hefyd yn teimlo bod plant ag anghenion addysgol arbennig a phlant mwy abl a dawnus yn elwa ar ddysgu yn yr awyr agored.

5 Yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, ceir cynllunio digonol o leiaf i sicrhau cydbwysedd priodol o weithgareddau awyr agored ar draws pob Maes Dysgu a medrau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r awyr agored yn ddigon da i ddatblygu medrau plant mewn:

- darllen;
- ysgrifennu, ac eithrio creu marciau cynnar;
- defnyddio TGCh;
- datblygiad creadigol; ac
- ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol.

6 Mewn dwy o bob tair sesiwn a arsylwyd fel rhan o'r arolwg, roedd profiadau dysgu yn yr awyr agored yn dda neu'n well.

7 Ni chaiff dysgu'r plant ei asesu mor aml gan fod asesiadau dan do ac awyr agored yn aml yn cynnwys llai o ffocws. Gan fod plant yn defnyddio'r awyr agored yn amlach ac am gyfnodau cynyddol, gall cyfnodau pwysig yn natblygiad plentyn gael eu colli heb ddull mwy cynhwysfawr o asesu awyr agored.

8 Mae gan rai ysgolion a lleoliadau amheuon ynglŷn â manteision dysgu yn yr awyr agored i blant. Yn yr ysgolion hyn, er gwaethaf y cymorth gan awdurdodau lleol, ni ddefnyddir yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn ddigon da.

9 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn gweithio'n dda gyda rhieni[1] i wneud defnydd priodol o'u medrau a'u gwybodaeth arbenigol i gefnogi darpariaeth awyr agored. Fodd bynnag, ni chaiff rhieni ddigon o wybodaeth gan ysgolion a lleoliadau ynglŷn â'r hyn y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr awyr agored.

10 Mae bron pob ymarferwr yn monitro'r defnydd o'r awyr agored yn anffurfiol. Mae ymarferwyr hefyd yn gwneud rhai asesiadau arsylwadol o blant yn ystod gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn a gweithgareddau wedi'u hysgogi gan blant yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau cadarn ar waith i olrhain a mesur cynnydd plant mewn medrau trwy ddysgu yn yr awyr agored.

11 Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn rhoi digon o sylw i godi safonau a lefelau lles bob amser wrth wella'r ddarpariaeth awyr agored. Yn gyffredinol, nid ydynt yn gosod targedau penodol wrth gynllunio ar gyfer gwella.

12 Ysgolion a lleoliadau sy'n gwneud y defnydd gorau o ddarpariaeth awyr agored i gefnogi a gwella dysgu'r plant pan fydd arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cymorth da. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr a rheolwyr wedi cael digon o hyfforddiant ar y Cyfnod Sylfaen i nodi arfer dda, herio arfer sy'n llai effeithiol, a gwneud penderfyniadau cadarn a chost effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau yn awyr agored.

[1] Mae'r term 'rhieni' yn cyfeirio at rieni a gofalwyr.

## Argymhellion

Dylai ysgolion a lleoliadau:

A1 roi mwy o gyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu ac ymarfer eu medrau darllen ac ysgrifennu yn yr awyr agored;

A2 cynllunio, trefnu ac asesu dysgu a lles cystal yn yr awyr agored ag y maent dan do;

A3 datblygu cynlluniau gwella mwy effeithiol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gosod targedau clir, mesuradwy ar gyfer gwella'r deilliannau i blant;

A4 sicrhau bod pob un o'r staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn hyderus mewn defnyddio'r awyr agored i gefnogi dysgu'r plant; ac

A5 ystyried yr effaith ar ddeilliannau ar gyfer plant wrth wneud penderfyniadau ariannol i ddatblygu darpariaeth a chyfleusterau awyr agored.

Dylai awdurdodau lleol:

A6 ddarparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr a rheolwyr i'w helpu i nodi safonau ac ansawdd da yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored; a

A7 gweithio gydag ysgolion a lleoliadau i wella'r data meintiol ac ansoddol sydd ar gael i arfarnu effeithiolrwydd dysgu yn yr awyr agored.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A8 roi arweiniad ar arfarnu cost effeithiolrwydd darpariaeth a chyfleusterau awyr agored.

## Cyd-destun

### Diben yr adroddiad

13 Lluniwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2010-2011.  Mae'r adroddiad yn arfarnu pa mor dda y mae dysgu yn yr awyr agored yn datblygu yng Nghymru, ei effaith ar safonau a lles plant, a ble y gellir gwneud gwelliannau.

14 Mae'r arolwg hwn yn darparu cyngor yn ymwneud ag amcanion Llywodraeth Cymru yn Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith trwy holi:

- a yw dysgu yn yr awyr agored yn cynyddu ymgysylltiad, mwynhad a chyflawniad ein plant ieuengaf;
- a yw cwricwlwm cyfoethog ac estynedig yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb pob plentyn, yn enwedig plant mwy abl a dawnus, bechgyn a phlant ag anghenion addysgol arbennig;
- a yw defnydd gwell o'r awyr agored yn cynyddu iechyd, ffitrwydd a lles plant; ac
- a yw ymarferwyr yn cyflwyno dysgu yn yr awyr agored yn unol â'r lefelau ansawdd sy'n ofynnol.

15 Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, uwch arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion a lleoliadau, swyddogion ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol.  Gallai'r adroddiad hefyd fod o ddiddordeb i sefydliadau sy'n hyfforddi athrawon ac i awdurdodau esgobaethol eglwysi.

### Cefndir

16 Mae'r Cyfnod Sylfaen, a gyflwynwyd i bob plentyn o dan bump oed yn 2009[2], yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai darpariaeth y blynyddoedd cynnar gynnig sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol trwy gwricwlwm sy'n ddatblygiadol briodol.  O Fedi 2011, mae'r Cyfnod Sylfaen yn berthnasol i bob plentyn rhwng tair a saith mlwydd oed sy'n derbyn ei addysg mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, ysgolion eglwys ac mewn lleoliadau nas cynhelir.  Mae'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed' yn darparu hawl i'r cwricwlwm statudol ac yn pwysleisio dysgu plant trwy 'wneud gweithgareddau priodol' dan do ac yn awyr agored.

17 Er mwyn cefnogi ymarferwyr wrth gyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel yn yr awyr agored, ariannodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant ar ddysgu yn yr awyr agored, cynhaliodd ddigwyddiadau i ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored ac ariannodd sefydliadau fel 'Dysgu Drwy Dirweddau' a 'Chwaraeon Cymru' i greu arweiniad ac adnoddau.

[2] Cyflwynwyd plant tair i bedair oed i'r Cyfnod Sylfaen yn 2008.  O Fedi 2011, mae'r Cyfnod Sylfaen yn berthnasol i bob plentyn rhwng tair a saith oed sy'n derbyn ei addysg trwy ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, ysgolion eglwys a lleoliadau nas cynhelir.

# 1 Gwerth dysgu yn yr awyr agored

**Pa mor dda y mae dysgu yn yr awyr agored yn cefnogi ymgysylltiad, mwynhad a chyflawniad plant?**

18 Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn gwneud defnydd digonol o leiaf o'r awyr agored i wella ac atgyfnerthu dysgu'r plant. Mae ansawdd adeiladau a chyfleusterau awyr agored a'r cyfyngiadau o ran lle neu safle llawer o ysgolion neu leoliadau yn her i arweinwyr a rheolwyr wrth gynllunio dysgu yn yr awyr agored. Mae pa mor dda y mae'r ysgol neu'r lleoliad yn goresgyn yr heriau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar weledigaeth ac ymroddiad arweinwyr i wneud y defnydd gorau o'r amgylchedd awyr agored ar gyfer dysgu. Mae ysgolion fel Ysgol Fabanod a Meithrin Gorseinon yn Abertawe, Ysgol Fabanod Cwmaman yn Rhondda Cynon Taf, a lleoliadau fel cylch chwarae'r Wig a'r Fro ym Mro Morgannwg, yn dangos y gall hyd yn oed 'jyngl concrit' neu dir segur gael eu trawsnewid gydag arweinyddiaeth gref, dychymyg a dealltwriaeth.

19 Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn dweud bod dysgu yn yr awyr agored yn hyrwyddo ymgysylltiad a mwynhad plant mewn dysgu. Yn ei dro, caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol plant, eu hymddygiad a'u lles cyffredinol. Mae plant yn dyfalbarhau â gweithgareddau am gyfnodau hwy yn yr awyr agored a byddant yn fwy parod i roi cynnig ar bethau newydd. Maent yn dysgu cydweithredu a chymhwyso eu medrau meddwl i broblemau go iawn, fel creu cuddfan ddwrglo ar gyfer cymeriadau mewn stori. Yn gyffredinol, mae lefelau mwynhad yn uchel ac mae plant yn cael pleser o'r hyn y maent yn ei wneud.

20 Mae ymarferwyr ac awdurdodau lleol yn cytuno bod gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r byd a'u datblygiad corfforol yn gwella orau lle gwneir y defnydd gorau o adnoddau a chyfleusterau awyr agored.

21 Mae llawer o ysgolion, a mwyafrif o leoliadau, wedi creu amgylcheddau awyr agored cyfoethog ac amrywiol lle mae plant yn defnyddio eu synhwyrau i ddarganfod pethau am eu byd. Mae enghreifftiau da yn cynnwys creu mannau ar gyfer gwylio adar, tyfu llysiau, teithiau cerdded synhwyraidd a mannau bywyd gwyllt. Mae ymarferwyr yn cyfeirio'n aml at ddealltwriaeth well y plant o'r tymhorau a phlanhigion. Mewn un ysgol yr ymwelwyd â hi, enwodd y plant sawl perlysieuyn a phrysglwyn wrth gasglu dail i wneud persawr ar gyfer 'Wini'r Wrach'.

22 Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant redeg, neidio, cydbwyso, dringo, archwilio ac arbrofi. Gwneir defnydd cynyddol o ardaloedd yn yr awyr agored i annog plant i gymryd risgiau corfforol rhesymol fel cerdded a rhedeg ar arwynebau anwastad neu geisio llywio beic yn defnyddio un llaw.

23 Mae mwyafrif o ymarferwyr yn dweud bod stamina a ffitrwydd corfforol plant yn gwella oherwydd eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau awyr agored rheolaidd. Er enghraifft, gallai ymarferwyr enwi plant unigol a oedd am gael eu cario pan wnaethant ddechrau mewn dosbarth meithrin, ond a oedd o fewn rhai wythnosau, yn hapus i fynd ar deithiau cerdded hir heb gymorth.

24 Mae llai o dystiolaeth bod defnyddio’r awyr agored yn galluogi plant i gyflawni safonau gwell ym mhob Maes Dysgu a medrau allweddol. Fe wnaeth ychydig llai na hanner yr ymatebwyr i’r holiadur ar gyfer yr arolwg hwn nodi gwelliannau ym medrau mathemategol plant, yn enwedig medrau cyfrif. Nododd tua thraean ohonynt welliannau ym medrau llythrennedd plant, a bod llawer o welliant mewn medrau llefaredd a chreu marciau. Mae TGCh a datblygu’r iaith Gymraeg mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg yn feysydd lle mae plant yn gwneud llai o gynnydd yn yr awyr agored.

25 Prin yw’r ymarferwyr sy’n nodi gwelliannau yn natblygiad creadigol plant gan ddefnyddio’r awyr agored, er bod yr awyr agored yn arbennig o dda ar gyfer gweithgareddau a allai gefnogi safonau gwell mewn dawns, gwaith celf ar raddfa fawr, chwarae rôl a cherddoriaeth.

**Pa mor dda y mae dysgu yn yr awyr agored yn cefnogi grwpiau penodol o blant?**

26 Mae mwyafrif o ymarferwyr yn teimlo mai bechgyn sy’n elwa fwyaf ar ddysgu yn yr awyr agored gan ei fod yn addas ar gyfer eu harddull ddysgu weithredol. Mae rhai ymarferwyr yn teimlo bod plant ag anghenion addysgol arbennig hefyd yn elwa ar amgylchedd awyr agored mwy rhydd a lle maent yn teimlo dan lai o bwysau. Nid yw ymarferwyr yn sicr ynghylch a yw plant mwy abl a dawnus yn elwa ar ddysgu yn yr awyr agored.

27 Yn gyffredinol, dywed ymarferwyr fod pob plentyn yn elwa i raddau penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall ymarferwyr nodi sut mae plant unigol wedi elwa. Er enghraifft, mae plant tawel a swil wedi dysgu defnyddio ‘lleisiau mawr’ y tu allan a phlant ag anawsterau ymddygiadol sydd wedi ymgynefino’n well yn y dosbarth ar ôl ymgymryd â thasgau yn yr awyr agored.

## 2 Cyflwyno profiadau o ansawdd da

### Pa mor dda yw'r profiadau dysgu?

28 Yn yr arfer orau, mae'r holl staff addysgu a chymorth yn cymryd eu tro i weithio tu allan gyda grwpiau o blant. Gwerthfawrogir dysgu yn yr awyr agored i blant, ac ystyrir ei fod yr un mor bwysig â dysgu dan do. Mewn lleiafrif o ysgolion, fodd bynnag, y staff nad ydynt yn addysgu yn unig sy'n cefnogi'r plant wrth iddynt ddysgu yn yr awyr agored. Yn aml mewn achosion o'r fath, canfyddir bod 'dysgu go iawn' yn digwydd yn y dosbarth yn unig gyda'r athro, ac mae dysgu yn yr awyr agored yn cael ei roi o'r neilltu.

29 Yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, mae'r cynllunio o leiaf yn ddigonol o ran sicrhau bod cydbwysedd priodol o weithgareddau yn yr awyr agored ar draws y rhan fwyaf o'r Meysydd Dysgu a'r medrau allweddol. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn, caiff y gweithgareddau eu harwain gan y plentyn a'u cyfarwyddo gan oedolyn, maent yn cynnwys diben clir ac yn addas ar gyfer yr awyr agored. Pan fo'r cynllunio yn effeithiol iawn, mae ymarferwyr yn cynllunio gyda'i gilydd fel bod pob un o'r staff yn gwybod beth y dylai'r plant ei ddysgu. Pan fo'r cynllunio yn llai effeithiol, nid oes gan ymarferwyr ddealltwriaeth ddigon da o bwysigrwydd chwarae o ansawdd da yn yr awyr agored i gefnogi datblygiad a dysgu'r plant. Mae hyn yn arwain at ddibynnu'n ormodol ar weithgareddau awyr agored traddodiadol fel plant yn defnyddio beiciau a theganau ag olwynion, a chollir cyfleoedd i fanteisio ar chwilfrydedd naturiol plant. Mae plant yn holwyr ac ymchwilwyr naturiol, ac o roi'r amser, y lle a'r adnoddau angenrheidiol iddynt, byddant yn chwilio am atebion i gwestiynau, fel: Beth fydd yn digwydd os byddwn yn tywallt dŵr ar ddail neu'n cnocio tŵr o foncyffion i lawr a pham? Beth fydd yn digwydd i fy llun sialc pan fydd yn bwrw glaw? Pam ydym yn dod o hyd i bryfed lludw mewn lleoedd tywyll? Sut gallaf i rwystro'r glaw rhag dod i mewn i'm cuddfan?

30 Mae llawer o ysgolion a mwyafrif o leoliadau yn cynllunio ystod o weithgareddau awyr agored priodol i ddatblygu medrau siarad a gwrando plant a'u medrau creu marciau. Mae ymarferwyr yn mynd ar 'deithiau cerdded gwrando' gyda'r plant neu'n eu hannog i ddatrys problemau fel grŵp lle mae cyfathrebu yn hanfodol i lwyddiant y dasg. Er bod plant yn creu marciau neu'n ysgrifennu mewn sialc, paent, mwd neu sudd aeron yn rheolaidd ar arwynebau yn yr awyr agored, ychydig iawn o ddilyniant a geir ym medrau ysgrifennu plant yn yr awyr agored. Yn gyffredinol, nid yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar plant. Nid yw ymarferwyr bob amser yn ddigon creadigol yn dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'r awyr agored i gefnogi darllen ac ysgrifennu.

31 Yn gyffredinol, nid yw'r cynllunio gystal yn yr awyr agored ar gyfer datblygu iaith Gymraeg y plant mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg, medrau TGCh, datblygiad creadigol ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r tywydd yn cyfyngu'r defnydd o'r awyr agored i ddatblygu medrau TGCh plant. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r Meysydd Dysgu eraill, diffyg paratoi, dychymyg ac adnoddau priodol ymarferwyr (trwy drefnu bod dillad addas ar gael) sy'n rhwystro'r mannau yn yr awyr agored rhag cael eu defnyddio'n effeithiol, yn enwedig yn ystod tywydd garw.

32 Pan nad yw ymarferwyr yn deall pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored i blant, neu os ydynt yn amheus yn ei gylch, nid yw'r profiadau dysgu cystal ag y dylent fod. Yn yr achosion hyn, mae plant yn colli allan ar gamau pwysig yn eu dysgu.

33 Mae bron pob ysgol a lleoliad yn cynnal asesiadau arsylwadau o blant yn yr awyr agored, er bod llai o arsylwadau felly yn cael eu gwneud yn yr awyr agored na dan do. Mae ymarferwyr yn defnyddio nodiadau gludiog a nodlyfrau i gofnodi cyfranogiad plant mewn gweithgareddau awyr agored, a'u mwynhad ynddynt. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol o ymarferwyr yn cofnodi digon o wybodaeth am gynnydd a chyflawniad plant yn yr awyr agored. Mae hyn yn golygu bod cerrig milltir pwysig yn natblygiad plant yn cael eu colli.

**Pa mor effeithiol yw hyfforddiant a datblygiad ymarferwyr wrth wneud y mwyaf o'r awyr agored?**

34 Dywed y rhan fwyaf o ymarferwyr ac awdurdodau lleol fod hyfforddiant mewn defnyddio'r awyr agored yn annog defnydd gwell o'r awyr agored a'i fod wedi gwella profiadau dysgu'r plant. Mae bron pob ysgol a lleoliad yn defnyddio'r awyr agored yn rheolaidd, ac yn yr arfer orau, caiff y gweithgareddau awyr agored eu cynllunio, eu rheoli, eu harfarnu, gydag adnoddau a staff sydd gystal â gweithgareddau dan do. Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion a lleoliadau, nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr syniadau a gawsant o hyfforddiant y gwnaethant eu defnyddio o ganlyniad. Roedd un syniad yn cynnwys defnyddio blychau tywydd. Roedd y blychau hyn yn cynnwys pethau fel ymbarelau o feintiau a lliwiau amrywiol ar gyfer diwrnodau glawog a rhubanau, darnau o frethyn a mwclis ar gyfer diwrnodau gwyntog.

35 Fodd bynnag, mewn tua thraean o'r sesiynau a arsylwyd, roedd y profiadau dysgu a'r defnydd o'r awyr agored dim ond yn ddigonol neu hyd yn oed yn anfoddhaol. Roedd y meysydd i'w gwella yn cynnwys y canlynol:

- Roedd y profiadau dysgu yn cael eu cyfarwyddo gormod gan oedolion.
- Roedd diffyg her yn y gweithgareddau parhaus, a buan y collodd y plant ddiddordeb.
- Nid oedd digon o gynllunio i wella'r gweithgareddau awyr agored.
- Roedd y diffyg hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer staff cymorth yn golygu mai rôl oruchwylio oedd ganddynt o bryd i'w gilydd yn hytrach na rôl addysgol.
- Collwyd cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant.
- Roedd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn anaddas ar gyfer yr awyr agored neu nid oeddent yn gwneud y mwyaf o'r cyfleusterau oedd ar gael.

36 Cafodd mwy o feysydd i'w datblygu eu nodi mewn arsylwadau mewn lleoliadau nas cynhelir na mewn ysgolion. Y rheswm am hyn yw bod ymarferwyr mewn lleoliadau yn llai sicr ar y cyfan ynglŷn â sut i wneud y mwyaf o ddysgu yn yr awyr agored, yn enwedig gan fod diffyg lle addas yn yr awyr agored ynddynt. Nid yw rhai ymarferwyr yn deall y gall deunyddiau naturiol neu ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu fod mor effeithiol wrth gefnogi dysgu yn yr awyr agored ag adnoddau a brynwyd.

37 At ei gilydd, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd gwell o'r amgylchedd awyr agored pan fydd dosbarthiadau cyfan o blant yn mynd i'r awyr agored gyda'i gilydd na phan

fydd dim ond grwpiau bach o blant yn cymryd rhan, er enghraifft lle caiff diwrnodau eu neilltuo ar gyfer dysgu yn yr amgylchedd lleol fel 'Llun Budr' ('Mucky Mondays'), 'Mercher Welis' ('Wellie Wednesdays') a 'Gwener Rhyfedd' ('Freaky Fridays').  Mae'r diwrnodau hyn yn darparu ffocws clir ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig i ymarferwyr llai hyderus.

38 Nid oes digon o gyfleoedd hyfforddi i uwch reolwyr ddysgu sut i arfarnu effaith dysgu yn yr awyr agored ar safonau plant ac ansawdd y ddarpariaeth.  Mae hwn yn fwlch pwysig yn hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen.  Mae uwch arweinwyr a rheolwyr yn aml yn gyfrifol am benderfyniadau mawr ynghylch gwariant ar gyfer darpariaeth a chyfleusterau newydd yn yr awyr agored, ond nid ydynt bob amser yn deall rôl dysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.  Nid ydynt yn gallu gwneud yn siŵr felly y bydd gwariant o'r fath yn gwella safonau a lles plant neu'n darparu gwerth am arian.

39 Mae pob awdurdod lleol a ymatebodd i holiadur yr arolwg yn rhoi cymorth ychwanegol i ysgolion a lleoliadau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.  Rhennir arfer dda mewn cynadleddau a darperir adnoddau ychwanegol i wella'r ddarpariaeth, fel pecynnau creu cuddfannau a phecynnau dŵr.  Mae rhai awdurdodau lleol wedi ariannu mân waith adeiladu fel mannau chwarae dan do neu ffensys neu'n darparu offer fel tai gwydr neu lochesau.  Darperir hyfforddiant ychwanegol hefyd gan asiantaethau fel y Comisiwn Coedwigaeth, sydd wedi cynyddu hyder ymarferwyr mewn defnyddio ardaloedd coetir.  Er gwaethaf y gwaith da hwn gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, mae'r awyr agored yn parhau i fod yn adnodd dysgu na ddefnyddir yn ddigonol mewn rhai ysgolion a lleoliadau.

## 3 Rhan rhieni mewn dysgu yn yr awyr agored

**Pa mor dda y mae ysgolion a lleoliadau yn ennyn diddordeb rhieni wrth i'w plant ddysgu yn yr awyr agored?**

40 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn cynnwys rhieni a gofalwyr.  Mewn llawer o achosion, mae rhieni yn helpu codi arian i brynu deunyddiau ac adnoddau.  Mae rhieni yn aml yn mynd gyda phlant ar ymweliadau yn y gymuned fel ymweliadau â choetiroedd a pharciau lleol.  Os oes gan rieni fedrau garddio, yna mae ysgolion a lleoliadau yn awyddus i wneud y mwyaf o'u harbenigedd.  Gwneir defnydd da o ddysgu yn yr awyr agored yn y mwyafrif o ysgolion a rhai lleoliadau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol neu'r lleoliad.  Er enghraifft, mae prosiect awdurdod lleol Wrecsam, 'Grow With Me – Tyfu Gyda Fi' yn annog rhieni plant tair oed i dyfu dail salad mewn blychau ffenestr gartref gyda'u plant.

41 Mae llawer o ysgolion a mwyafrif o leoliadau yn hysbysu rhieni'n dda ynglŷn â'r modd y defnyddir yr awyr agored i ddarparu profiadau ar gyfer eu plant trwy gylchlythyrau rheolaidd, portffolios o ffotograffau neu ddiwrnodau agored/sesiynau chwarae.  Yn yr arfer orau, rhoddir gwybodaeth i rieni ynglŷn â'r hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr awyr agored, yn cynnwys y medrau y maent yn eu caffael yn hytrach na'r profiadau a gânt.  Fodd bynnag, at ei gilydd, ni chaiff rhieni ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r hyn y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr awyr agored.

## 4 Asesu ac arfarnu dysgu yn yr awyr agored

42 Yn y mwyafrif o ysgolion a lleoliadau, megis dechrau datblygu y mae asesu ac arfarnu safonau a lles plant yn yr awyr agored yn gyffredinol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn cynnal asesiad arsylwadol o blant unigol yn yr awyr agored, yn enwedig pan fydd plant yn ymgymryd â thasgau â ffocws. Caiff lefelau diddordeb a chymhelliant plant eu cofnodi'n aml a gallent arwain at newidiadau yng nghynllunio ymarferwyr. Mae cofnodi gweithgareddau plant yn y modd hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ymarferwyr am blant unigol.

43 Fodd bynnag, ychydig iawn o olrhain cynnydd grwpiau o blant a geir i nodi a yw dysgu yn yr awyr agored yn gwneud gwahaniaeth. Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn mesur ac yn rhoi tystiolaeth o gynnydd plant yn ddigon da. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn credu bod bechgyn yn elwa ar ddysgu yn yr awyr agored, ond eto, nid ydynt yn gallu dangos hyn trwy ddangos cofnodion o gynnydd ym medrau bechgyn. Yn yr un modd, mae ymarferwyr yn gweld bod medrau corfforol plant yn gwella, ond ni allant gysylltu hyn, er enghraifft, â chofnodion o welliannau yn llawysgrifen plant o ganlyniad i fedrau corfforol gwell. Dywed y rhan fwyaf o ymarferwyr fod dysgu yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb plant ac yn eu cymell i ddysgu, a'u bod yn hapusach yn dod i'r ysgol, ond na allant ddangos presenoldeb a phrydlondeb gwell.

44 Mae llawer o ysgolion a lleoliadau wedi cynnwys gwelliannau mewn darpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored fel cam yn eu cynlluniau gwella, ond nid ydynt yn gosod targedau sydd wedi'u cysylltu'n glir â gwelliannau yn safonau a lles plant. O ganlyniad, caiff llwyddiant yn aml ei fesur o ran y camau a gwblhawyd yn hytrach na deilliannau gwell.

45 Mae gan awdurdodau lleol systemau ar waith i fonitro ansawdd darpariaeth yn yr awyr agored. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau o ddarpariaeth i flaenoriaethu cymorth a hyfforddiant, ymweliadau rheolaidd gan athrawon ymgynghorol â lleoliadau sy'n canolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored, a chraffu ar adroddiadau arolygu. Yn gyffredinol, nid yw'r gwaith hwn yn canolbwyntio digon ar arfarnu effaith darpariaeth yn yr awyr agored ar safonau a lles plant.

## Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer yr arolwg hwn, defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- ymweliadau â 23 o ysgolion a lleoliadau ledled Cymru pan arsylwyd 35 o sesiynau;
- trafodaethau gyda phenaethiaid a chydlynwyr y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw;
- trafodaethau gydag ymarferwyr arweiniol yn y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw;
- dadansoddi data arolygu ar gyfer 2008-2010;
- dadansoddi 14 o holiaduron a ddychwelwyd gan awdurdodau lleol, 27 gan ysgolion a deg gan leoliadau; a
- chyfweliadau ffôn ag ymarferwyr mewn deg lleoliad.

Defnyddiwyd tystiolaeth arolygu i nodi detholiad o ysgolion a lleoliadau i ymweld â nhw a oedd yn cynrychioli trawstoriad o ddarparwyr ledled Cymru.

## Atodiad 2:  Astudiaethau achos arfer dda

**Astudiaeth achos 1:  Cylch chwarae'r Wig a'r fro, Bro Morgannwg**

**Cyd-destun**

Mae cylch chwarae'r Wig a'r Fro ym Mro Morgannwg yn darparu gofal ac addysg ar gyfer rhwng 17 a 24 o blant o ddwy a hanner oed.  Cylch chwarae sector gwirfoddol ydyw, sy'n cael cyllid addysg gan yr awdurdod lleol ar gyfer plant tair oed rhan-amser.  Caiff y cylch chwarae ei redeg a'i reoli gan arweinydd profiadol iawn sy'n cael ei gefnogi gan dri aelod ychwanegol o staff a dau wirfoddolwr.  Mae'r cylch chwarae yn ymwneud yn weithredol ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.  Hwn oedd y cylch chwarae cyntaf yng Nghymru i ennill gwobr y Faner Werdd a'r cylch chwarae cyntaf ym Mhrydain i ennill gwobr Ysgolion Masnach Deg.  Mae'r cylch chwarae yn y neuadd bentref, wrth ymyl mynwent yr eglwys leol.

**Strategaeth**

I baratoi ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, archwiliodd arweinydd a staff y lleoliad eu darpariaeth yn yr awyr agored.  Dangosodd yr archwiliad fod angen mwy o gyfleoedd i blant gael profiadau uniongyrchol o'r byd naturiol, er bod defnydd da yn cael ei wneud o'r man concrit cymharol fach o amgylch y cylch chwarae.  Nodwyd bod man yn y fynwent gyfagos yn ardal bosibl i ddarparu Gardd Bywyd Gwyllt a Dysgu i'r plant ei defnyddio.

**Gweithredu**

Ar ôl llawer o gynllunio a thrafod, nodwyd rhan o'r fynwent at ddefnydd y cylch chwarae. Dros gyfnod, mae'r rhan o'r fynwent sydd wedi tyfu'n wyllt wedi cael ei thrawsnewid yn lle dysgu awyr agored dynamig, hyblyg ac amlbwrpas. Caiff gweithgareddau eu cynllunio'n ofalus i wneud cymaint o ddefnydd o'r ardal ag y bo modd. Mae ffeil 'Mathemateg a Dysgu yn yr Awyr Agored', er enghraifft, yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer pwyso, didoli a chymharu llysiau o'r ardd, manylion am helfeydd siapiau a helfeydd patrymau gan ddefnyddio blodau a rhisgl, a gweithgareddau datrys problemau.

**Effaith**

Mae'r Ardd Bywyd Gwyllt a Dysgu yn annog chwilfrydedd naturiol plant a'u hawydd i archwilio â'u synhwyrau. Mae dysgu yn hwyl ac mae'r plant yn dangos lefelau uchel o gymhelliant a dyfalbarhad. Caiff dealltwriaeth plant o'r tymhorau, pethau byw a deunyddiau naturiol ei chynyddu trwy'r profiadau uniongyrchol y mae'r ardd yn eu darparu o'r byd naturiol. Mae plant yn dysgu dangos parch a gwerthfawrogiad am y byd naturiol a sut i ofalu amdano.

Mae'r Ardd Bywyd Gwyllt a Dysgu wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau eraill ar fywyd a gwaith y lleoliad, gan gynnwys ymglymiad rhieni a'r gymuned. Fe wnaeth rhieni helpu clirio'r safle a pharhau i gymryd rhan nid yn unig yn ei gynnal, ond mewn gwella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae rhiant wedi creu gwesty i anifeiliaid bach o ddeunydd y gellir ei ailgylchu. Caiff y gymuned ac ymwelwyr â'r eglwys eu hannog i ddefnyddio'r ardd pan na fydd y cylch chwarae'n ei defnyddio. Caiff cyfres o lyfrynnau am yr ardd a beth i chwilio amdano, fel anifeiliaid bach, mathau o goed ac arwyddion o'r gwanwyn, eu rhoi yn yr eglwys i ymwelwyr eu defnyddio os ydynt am ymweld â mynwent a gardd yr eglwys. Mae'r ysgol leol hefyd yn defnyddio'r ardal yn rheolaidd gyda grwpiau o blant.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Gynradd Nottage, Pen-y-bont ar Ogwr**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Nottage yn nhref lan môr Porthcawl ac yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae 405 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn derbyn plant i'r dosbarth meithrin ar ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r ysgol wedi creu ardal goetir ar y tir i wella profiadau dysgu pob plentyn, ond yn arbennig ar gyfer plant o dan bum mlwydd oed.

**Strategaeth**

Sylweddolodd yr ysgol yn eithaf buan ei bod yn hanfodol cynnwys rhieni os oeddent am ddeall pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored ac i beidio â phryderu gormod ynglŷn â phlant yn mynd yn fwdlyd neu'n dal annwyd. Fe wnaeth yr ysgol hysbysu rhieni yn dda am bwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored ond cydnabu y gellid gwella dealltwriaeth rhieni pe bai tasgau ysgol-cartref yn canolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored.

**Gweithredu**

Fe wnaeth yr athrawes feithrin gynllunio gweithgareddau medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn seiliedig ar gymeriad mewn llyfr stori. Yn y stori, mae'r cymeriad yn colli ei ddarnau lliw. Rhoddwyd torluniau cardfwrdd wedi'u lamineiddio o'r cymeriad yn y stori i'r rhieni a gofynnwyd iddynt chwarae gêm gyda'u plant trwy gyfrif a pharu lliwiau. Cyn i'r plant ddeffro yn y bore, gofynnwyd i'r rhieni dynnu'r lliwiau o'r torlun. Anogwyd y rhieni i siarad â'u plant ynglŷn â'r hyn a allai fod wedi digwydd i'r lliwiau ac awgrymu ble y gallent fod wedi mynd. Aethpwyd i'r afael â hyn yn y dosbarth ac aeth y plant ar helfa liwiau i ddod o hyd i'r lliwiau coll.

**Effaith**

Roedd y plant yn teimlo'n gyffrous ac nid oeddent yn gallu aros i fynd adref a dweud wrth eu rhieni beth yr oeddent wedi dod o hyd iddo. O ganlyniad, teimlai'r rhieni fod ganddynt ran yn nysgu eu plant a dealltwriaeth well o'r modd y gall dysgu yn yr awyr agored gefnogi'r cwricwlwm a datblygiad medrau plant.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Gynradd Sant Aloysius, Merthyr Tudful**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Aloysius wedi'i lleoli ar Ystâd Y Gurnos ym Merthyr Tudful. Cydnabyddir bod yr ardal yn gymdeithasol ddifreintiedig. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng tair ac 11 oed. Mae 179 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

**Strategaeth**

Roedd yr ysgol am ddyfeisio system i blant ifanc rhwng tair a phump oed asesu eu dysgu eu hunain, yn enwedig yn yr awyr agored lle'r oedd y gweithgareddau yn aml yn cael eu harwain gan y plant.

**Gweithredu**

Ar ôl arbrofi â sawl system, dewisodd yr ysgol ddau symbol llun i gefnogi plant ifanc iawn i hunanasesu: seren ddisglair os oedd y plant yn teimlo eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd a blodyn haul os oeddent yn dal i dyfu, h.y. yn datblygu ond angen mwy o ymarfer. Rhoddwyd dalenni mawr wedi'u lamineiddio ochr yn ochr â gweithgareddau, a'r rhain oedd y ffocws ar gyfer asesiadau arsylwadol yn ystod yr wythnos. Amlygwyd y maen prawf llwyddiant ar gyfer pob gweithgaredd ac fe atgoffwyd y plant am y rhain yn rheolaidd. Ar ôl cwblhau'r gweithgareddau, dewisodd y plant symbol i'w roi ar y bwrdd gan esbonio pam yr oeddent wedi dewis y symbol. Ysgrifennodd oedolyn enw'r plentyn mewn pen ffelt ar y symbol a rhoddodd y plentyn ef ar y dalenni wedi'u lamineiddio. Yn ystod yr wythnos, tynnwyd lluniau o'r dalenni a rhoddodd y rhain gofnod darluniadol o asesiad y plant o'u dysgu eu hunain. Defnyddiwyd y wybodaeth hon ochr yn ochr ag asesiadau arsylwadol i lywio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

**Effaith**

Datblygodd y plant ifanc iawn ymwybyddiaeth o'r hyn yr oeddent yn ei wneud yn well a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud yn well. Mae hwn yn fedr hanfodol ar gyfer dysgu gydol oes. Y fantais arall oedd bod ymarferwyr yn cael gwybod ar unwaith os oedd plant yn teimlo bod angen mwy o gymorth arnynt. Roedd yr ymyrraeth yn gyflym ac yn ymatebol i anghenion plant.

**Astudiaeth achos 4: Ysgol Fabanod Bedwas, Caerffili**

**Cyd-destun**

Ysgol fabanod ganolig ei maint yng Nghaerffili yw Ysgol Fabanod Bedwas. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng tair a saith oed. Mae 165 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, yn cynnwys 85 o blant rhwng tair a phump oed. Caiff cae chwarae a thir yr ysgol eu defnyddio gan blant rhwng pump a saith oed yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae gan yr ysgol dir cymharol eang, sy'n cael ei ddefnyddio'n dda i gefnogi dysgu'r plant.

**Strategaeth**

Fel rhan o gynllun menter iach yr ysgol, archwiliodd yr ysgol y defnydd a wneir o'i thir yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Canfu nad oedd pob maes yn cael ei ddefnyddio cystal ag y gallai. Hefyd, nid oedd llawer o blant yn ymgysylltu'n bwrpasol yn ystod y cyfnodau hyn bob amser, ac arweiniodd hyn at achosion o ymddygiad gwael neu ddiofal a mân ddamweiniau.

**Gweithredu**

Mae'r pennaeth a'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu amgylchedd dysgu awyr agored ysgogol a chyfoethog yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Roedd cae chwarae'r ysgol a mannau glaswelltog cyfagos wedi'u rhannu yn barthau dysgu ag offer da ynddynt. Roedd pob parth yn cael ei gefnogi gan oedolyn. Roedd plant yn rhydd i ddewis ble i fynd a chyda phwy i chwarae, ac yn aml roedd disgyblion hŷn yn cefnogi disgyblion iau wrth iddynt chwarae. Roedd y parthau dysgu yn cynnwys ystod o weithgareddau o ansawdd da fel addysgu medrau pêl-droed, 'campfeydd jyngl', cyfarpar dringo, twneli a lle i ddysgu medrau beicio ar feic dwy olwyn. Cafwyd cyfleoedd da ar gyfer gweithgareddau tawelach hefyd, fel gemau bwrdd, darllen llyfrau a deunyddiau ar gyfer defnyddio sialc, ysgrifennu a thynnu llun.

**Effaith**

Ar ôl cyflwyno'r parthau dysgu yn ystod amser egwyl ac amser cinio, fe wnaeth ymddygiad plant wella ac roedd llai o ddamweiniau. Roedd plant yn mwynhau eu hamser egwyl a'u hamser cinio llawer mwy. Maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn ystod o weithgareddau dysgu, gan gynnwys gweithgareddau corfforol.

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Pen Coch, Sir y Fflint**

**Cyd-destun**

Ysgol wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion ychwanegol yn Sir y Fflint yw Ysgol Pen Coch. Agorwyd yr ysgol yn 2009. Mae 82 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 25 yn y Cyfnod Sylfaen.

**Strategaeth**

I fodloni anghenion cymhleth llawer o'r plant yn yr ysgol, fe wnaeth ymarferwyr yn nosbarthiadau'r blynyddoedd cynnar ddatblygu ysgolion medrau ar gyfer llawer o agweddau ar ddarpariaeth barhaus sy'n digwydd y tu allan, fel 'chwarae yn y tywod', 'chwarae â blociau' a 'chwarae yn y dŵr'.

**Gweithredu**

Gweithiodd athrawon a staff cymorth gyda'i gilydd i ddatblygu ysgolion medrau i gynllunio set o 'fedrau' unigol ar gyfer pob plentyn y gellir ei gyflawni dan do neu yn yr awyr agored. Aeth y staff ati'n ofalus i baru'r 'cynlluniau medrau' unigol hyn i adnoddau a darpariaeth. Fe wnaeth testunau dosbarth, fel 'Ni ein Hunain' hefyd nodi datblygiad medrau plant mewn gweithgareddau estynedig a gweithgareddau â ffocws dan do ac yn yr awyr agored.

**Effaith**

Roedd yr asesiad medrau 'camau bach iawn' yn cynnwys pob profiad dysgu p'un a oedd yn digwydd dan do neu yn yr awyr agored. Fe wnaeth ymarferwyr allu asesu'n fwy cywir a chynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer camau nesaf y plant. Gallent nodi'n glir pryd y bodlonwyd y meini prawf llwyddiant, lle bynnag y digwyddodd y dysgu.

Roedd yr ysgol yn monitro dysgu a chynnydd plant yn yr awyr agored yn gyson. Er enghraifft, cofnododd yr ysgol lawer llai o enghreifftiau o blant yn dangos ymddygiad heriol wrth ymgymryd â gweithgareddau yn yr awyr agored. Mae'r ysgol hefyd wedi nodi bod llawer o blant yn dysgu'n fwy effeithiol yn yr awyr agored ac yn gwneud cynnydd gwell.

## Geirfa/cyfeiriadau

**Y Cyfnod Sylfaen** – cwricwlwm arbrofol, yn seiliedig ar chwarae, i blant rhwng tair a saith oed.

**Meysydd Dysgu** – y rhain sy'n ffurfio cynnwys cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn cynnwys Meysydd Dysgu statudol y mae'n rhaid i bob ysgol a lleoliad sy'n gymwys am gyllid, eu dilyn. Dyma'r Meysydd Dysgu:

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol;

- medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- datblygiad mathemategol;
- gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd;
- datblygiad corfforol; a
- datblygiad creadigol.

Mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae datblygu’r iaith Gymraeg yn faes dysgu ychwanegol.

**Lleoliadau**

Ariennir y rhain gan Bartneriaethau’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, i ddarparu addysg ran-amser ar gyfer plant rhwng tair a phump oed.  Mae lleoliadau yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat, meithrinfeydd a gwarchodwyr plant annibynnol.

**Ysgolion**

Caiff y sector addysg hwn ei ariannu trwy’r awdurdod lleol i ddarparu addysg ran-amser ac amser llawn ar gyfer plant rhwng tair a phump oed.  Mae ysgolion yn cynnwys ysgolion meithrin, babanod a chynradd.

**Ymarferwr**

Mae’r term hwn yn cynnwys pob oedolyn sy’n gweithio gyda phlant mewn ysgol neu leoliad yn rheolaidd.

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Bev Jenkins AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Rick Hawkley AEM | Aelod o’r tîm |
| Glyn Roberts AY | Aelod o’r tîm |